Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r ymatebion

# Newidiadau i Allbynnau Ystadegol Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

**Cynhyrchwyd gan**

**Ystadegau Pobl a'r Amgylchedd**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd,**
**CF10 3NQ**

**Llinell Ymholiadau Cyffredinol**
**Ffôn: 0300 025 5050**
**E-bost: ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru**

**ISBN: 978-1-78859-899-6**

**Newidiadau a gynigir i sawl gwaith y cyhoeddir Allbynnau Ystadegol Gwastraff Trefol Awdurdod Lleol**
**Ymgynghori â Defnyddwyr - Canlyniadau**

## Crynodeb

Cafodd ymgynghoriad â defnyddwyr ei gynnal rhwng Mis Mehefin a Mis Medi 2017 i ofyn i ddefnyddwyr am eu barn am y cynigion i:

(a) Roi'r gorau i gyhoeddi'r datganiad ystadegol chwarterol a chyhoeddi yn ei le Bennawd Ystadegol byr sy'n rhoi amlinelliad o'r prif bwyntiau ar lefel Cymru. Cyhoeddi data allweddol cysylltiedig ar gyfer Cymru ac Awdurdodau Lleol ar StatsCymru, i gynnwys y canlynol (chwarterol a chyfartaledd treigl deuddeng mis):
- Sgil-gynhyrchion gwastraff trefol
- % Ailddefnyddio/ailgylchu/compostio
- % Ailddefnyddio/ailgylchu
- % Compostio

(b) Rhoi'r gorau i gyhoeddi data dros dro ar gyfer Chwarter 4 ym mis Awst, a chyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol ym mis Medi. Byddai'r datganiad blynyddol yn rhoi dadansoddiad manwl o ddata gwastraff trefol yr awdurdod lleol, a byddai tablau data StatsCymru yn cael eu cyhoeddi gyda'r datganiad.

Roedd y dystiolaeth o blaid y newidiadau a gynigir yn awgrymu y byddent yn lleihau baich staff Llywodraeth Cymru heb effeithio'n andwyol ar ddefnyddioldeb yr wybodaeth ar gyfer monitro cynnydd y cynllun. Byddai'r newidiadau'n rhyddhau adnoddau yn Llywodraeth Cymru iddi allu darparu data blynyddol mwy amserol am wastraff trefol awdurdodau lleol a dadansoddi'r data hynny'n fanylach.

## Canfyddiadau

Cafwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad swyddogol hwn a barodd o 27 Mehefin 2017 tan 19 Medi 2017. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion yn ogystal â dyfyniadau uniongyrchol perthnasol.

Diolch yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad .

Dangosodd yr ymgynghoriad fod pob un o'r 8 ymatebydd yn cytuno â'r newidiadau a gynigir i allbynnau ystadegol gwastraff trefol awdurdod lleol.

**Y penderfyniad**:
Byddwn:

(a) Yn lle'r datganiad ystadegol manwl, yn cyhoeddi penawdau byr fydd yn crynhoi'r prif bwyntiau, ynghyd â thablau StatsCymru. Daw'r newid i rym o fis Tachwedd 2017 ymlaen (ar gyfer cyhoeddi data Chwarter 1, 2017-18)

(b) Yn peidio â chyhoeddi data dros dro chwarter 4 a chyhoeddi data chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol. Byddwn yn anelu i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol ym mis Medi yn hytrach na Hydref.

Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn monitro ac yn adolygu effaith y newidiadau hyn i sicrhau bod yr wybodaeth a gyhoeddir yn dal i ddiwallu anghenion ac nad yw ei hansawdd yn dioddef.

## Cyflwyniad

Ceir crynodeb o gefndir yr ymgynghoriad yn yr adroddiad hwn. I weld cefndir llawn yr ymgynghoriad, ewch i'r ddogfen ymgynghori.

Ar hyn o bryd, cyhoeddir data am wastraff trefol awdurdodau lleol mewn datganiad yn ogystal ag ar StatsCymru bob chwarter, lle disgrifir lefel gweithgarwch awdurdod lleol yn ystod y chwarter blaenorol. Mae'r datganiad chwarterol yn nodi nifer o gyfraddau gwastraff y cyfnod adrodd a hefyd cyfradd ailgylchu gronnus Cymru gyfan a chyfradd ailgylchu fesul person a fesul annedd.

Mae'r datganiad blynyddol diweddaraf, sy'n ymdrin â 2016-27, a'r datganiad chwarterol diweddaraf, sy'n ymdrin â misoedd Ionawr i Fawrth 2017, ar gael yma.
Fe welwch y set ddata gyfan yn StatsCymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn unol â Chod Ymarfer Ystadegau Swyddogol, er mwyn i ddefnyddwyr y data allu cynnig eu sylw ar y newidiadau a gynigir i allbynnau ystadegol Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol.

Parodd yr ymgynghoriad gyfnod o 12 wythnos o 27 Mehefin i 19 Medi 2017.

Esboniwyd y rhesymau dros y newidiadau yn y dogfennau ymgynghori a oedd ar gael ar y ddolen ganlynol:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newidiadau-i-allbynnau-ystadegol-gwastraff-trefol-awdurdodau-lleol

## Dulliau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno â'r cynigion.

Fe welwch y cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Atodiad A.

Roedd y dogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i ddefnyddwyr posib data gwastraff trefol awdurdodau lleol Cymru a defnyddwyr hysbys yr ystadegau amgylcheddol am yr ymgynghoriad ac fe'u gwahoddwyd i ymateb. Yn eu plith yr oedd rheolwyr gwastraff a swyddogion gwastraff awdurdodau lleol, llywodraeth leol, cymdeithasau amgylcheddol a mudiadau'r trydydd sector.

## Canlyniadau

Daeth 8 ymateb i'r ymgynghoriad i law, gan ddefnyddio'r ffurflenni ar-lein a'r ffurflenni Excel. Cafwyd 3 ymateb oddi wrth awdurdodau lleol Cymru, cafwyd 3 oddi wrth sefydliadau eraill ac ymatebion gan unigolion oedd y 2 oedd yn weddill. O'r 8 a ymatebodd, dywedodd 4 y byddent yn fodlon cael eu henwi yn yr adroddiad hwn ac maent wedi'u rhestru yn Atodiad B. Roedd yr wyth yn gefnogol i gynnig yr ymgynghoriad.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion am yr ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn.

**Cwestiwn 1**

**A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'r datganiad ystadegol chwarterol manwl a chyhoeddi Pennawd Ystadegol byr yn ei le yn rhestru'r prif bwyntiau ar lefel Cymru (tra'n ychwanegu data treigl 12 mis at dablau StatsCymru)? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.**

Cafwyd 7 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd pob un yn cytuno â'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai rhoi'r gorau i gyhoeddi'r datganiad chwarterol yn osgoi dryswch a dyblygu diangen. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

- 'The existing quarterly bulletins can be confusing and the new proposal should alleviate this issue.'
- ' Avoids unnecessary duplication'
- 'Local Authority Recycling Advisory Committee (LARAC) agree that quarterly figures can be misinterpreted when presented without the context of annual data. For example variations in garden waste can vary considerably by the weather and seasons. These differences could be misinterpreted by the public without additional information.'

Cynigiodd CIWM Cymru bod dangosyddion eraill yn cael eu cynnwys yn y pennawd chwarterol, fel:

- % y newid yn sgil-gynhyrchion gwastraff trefol;
- Faint o wastraff domestig a gynhyrchir fesul pen ac ati.

**Cwestiwn 2**

**A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi data dros dro Chwarter 4 ym mis Awst, a chyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol ym mis Medi? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.**

Cafwyd 6 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd pob un yn cytuno â'r cynnig, yn bennaf am fod posibilrwydd drysu â'r amserlen gyhoeddi bresennol. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

- 'Provisional Q4 publication can provide a false picture as the figures can be subject to change so the final (October) publication will alleviate this.'
- 'A reduction in workload and possible improvement accuracy. Some data has been revised to make significant adjustments 9 months after initial reporting.'
- 'LARAC agree it is prudent to delay publishing the Q4 data to allow quality assurance for data'
- Byddai CIWM Cymru'n cytuno â chynnig yr ymgynghoriad y gall y trefniadau i gyhoeddi Ch4 ym mis Awst a'r datganiad blynyddol terfynol ddau fis yn ddiweddarach ym mis Hydref fod ychydig yn ddryslyd a byddai'n cefnogi'r cynnig mai dim ond y data blynyddol ddylai gael eu cyhoeddi yn Medi bob blwyddyn adrodd.

**Cwestiwn 3**

**Beth yw eich barn am fformat a chynnwys yr adroddiad blynyddol ar hyn o bryd? Oes angen dadansoddiadau amgen arnoch?**

Cafwyd 6 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd pum ohonynt yn fodlon â'r datganiad blynyddol presennol. Dyma rai o'u sylwadau: roedd pawb yn cytuno â'r cynnig. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

- 'LARAC find the current format and content is good and includes sufficient analysis.'

  Dywedodd un ymatebydd (CIWM Cymru) bod y datganiad blynyddol presennol yn gallu bod yn ddryslyd a chymhleth:

  'CIWM Cymru is of the view that the current format and the annual release is that it appears to be over complex and possible confusing. Clearly aimed at the professional officers. It doesn't in our opinion for a document published on the NAW and WG webpages allow those less technically minded to fully understand the data and their specific Council performance. CIWM Cymru would suggest that the future format should be as user, including the general public, friendly as possible to ensure that the right measures are received and understood by all users.'

**Trafodaeth**
Roedd pawb a ymatebodd i'r cynnig hwn o blaid cynigion yr ymgynghoriad. Cynigiwyd dangosyddion ychwanegol ar gyfer tablau chwarterol StatsCymru ac awgrymodd un ymatebydd y dylid gwella'r datganiad blynyddol.

**I Gloi**
Byddwn yn gwneud y newidiadau a gynigir i'r wybodaeth ystadegol a gyhoeddir am Wastraff Trefol Awdurdodau Lleol.

- Ni fyddwn yn cyhoeddi datganiadau chwarterol mwyach am ddata gwastraff trefol awdurdodau lleol. Fe fyddwn, yn lle hynny, yn cyhoeddi set ddata lawn o wybodaeth am wastraff trefol ar lefel yr awdurdod lleol unigol ar wefan StatsCymru bob chwarter (ar gyfer tri chwarter y flwyddyn) ynghyd â gwybodaeth pennawd cryno ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd data StatsCymru'n nodi'r canlynol (bob chwarter a chyfartaledd treigl 12 mis):
    - Cyfanswm y gwastraff trefol yn ôl dull rheoli
    - % Ailddefnyddio/ailgylchu/compostio
    - % Ailddefnyddio/ailgylchu
    - % Compostio

Ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am wastraff domestig fesul person a fesul aelwyd bob chwarter ond byddwn yn ei chynnwys yn y datganiad data blynyddol.

Daw'r newid i rym o fis Tachwedd 2017 ymlaen (ar gyfer cyhoeddi data Chwarter 1, 2017-18)

O 2018 ymlaen, ni fyddwn yn cyhoeddi data dros dro chwarter 4 ond cyhoeddir data chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol. Caiff y datganiad blynyddol ei gyhoeddi'n gynharach, ym mis Medi. Wrth drafod â defnyddwyr a rhanddeiliaid, byddwn yn adolygu ac yn gwella'n datganiad blynyddol cyn ei gyhoeddi ym mis Medi 2018.

Rydym hefyd wedu cyhoeddi data am Gyrchfannau Ailgylchu ar ein gwefan StatsCymru.

Mae'r set ddata hon yn dangos y llifau o fathau o ddeunyddiau ailgylchadwy o bob awdurdod lleol i bob cyfleuster cyrchfan. Byddwn yn adolygu cyhoeddi'r data annibynnol hwn ac yn y dyfodol, efallai y bydd y data hwn ar gael trwy fecanwaith gwahanol.

## Atodiad A

### Cwestiynau a ofynnwyd

Enw
Sefydliad
Teitl Swydd
Cyfeiriad e-bost

Ydych chi am gael eich enwi fel awdur eich ymateb? (cwestiwn gorfodol)

C1. A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'r datganiad ystadegol chwarterol manwl a chyhoeddi Pennawd Ystadegol byr yn ei le yn rhestru'r prif bwyntiau ar lefel Cymru (tra'n ychwanegu data treigl dros 12 mis i dablau StatsCymru)? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.

C2. A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi data dros dro Chwarter 4 ym mis Awst, a chyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol ym mis Medi? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.

C3. Beth yw eich barn am fformat a chynnwys yr adroddiad blynyddol ar hyn o bryd? Oes angen dadansoddiadau amgen arnoch?

Beth yw'ch rhesymau am hyn, gan gynnwys effaith y newid hwn ar eich gwaith?

**Atodiad B**

**Rhestr o ymatebwyr** *(a ddywedodd eu bod yn hapus cael eu hadnabod)*

| **Enw** | **Sefydliad/Rôl** |
|---|---|
| Mark S Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili / Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden |
| Celine Anouilh | Swyddog Datblygu Rhanbarthol CIWM Cymru |
| Clifford Parish | MICE MIWM |
| Dianne Hewgill | Swyddog Cymorth Polisi, LARAC |
| Christopher Williams | Aelod o'r cyhoedd |